

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar yr 7fed o Ragfyr 2017

- 1 Presennol - John Jones (Cadeirydd) Anwen Humphreys Clifford Williams - Garndolbenmaen, Richard Williams Gwilym Evans - Prenteg, Richard Parry Edward Evans - Bryncir, Amanda N Owen Megan LI Williams - Golan, Dafydd Thomas Eifion Williams Gwenno Emlyn Huws - Penmorfa, Huw Pritchard Delyth Evans - Pentrefelin, Cynghorydd Alwyn Gruffydd. Caroll Ann Morris, Eryl Morris (aelodau o'r cyhoedd)
- 2 Ymddiheuriadau - Maldwyn Owen, Gareth Jones, Cynghorydd Stephen Churchman.
- 3 Ddim yn bresennol - neb.
- 4 Datgan Buddiant - neb.
- 5 Cywirdeb y cyn-gofnodion - Cofnodion - 2/11/17. Dafydd Thomas yn datgan eu cywirdeb ac Richard Williams yn eilio.
- 6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Materion Priffyrdd - Derbyniwyd llythyr gan yr Adran Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd yn nodi y dylai'r gwaith o ysgubo'r lonydd gael ei gwblhau erbyn yr 8fed o Ragfyr.

Archwiliad Allanol - Adroddodd y Clerc ei bod wedi siarad gyda Sioned Roberts o swyddfa Dafydd Elis Thomas AC. Derbyniwyd cwynion gan un Cyngor Cymuned ac un Cyngor Tref oedd yn codi pryderon gwahanol i rai Cyngor Dolbenmaen. Mae Dafydd Elis Thomas yn fodlon iawn codi ein pryderon gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru. Penderfynwyd gofyn iddo wneud hyn.

- 7 Mynwentydd

Mynwent Penmorfa - Adroddodd y Clerc bod Stephen Churchman wedi derbyn e-bost gan un o Gynghorwyr Tref Porthmadog ynglŷn â chwyn derbyniodd gan un o'i etholwyr am y gwair hir yn y fynwent a'r diffyg cyflenwad dŵr. Clerc i gysylltu gyda Stephen Churchman i gael mwy o wybodaeth ynglŷn â lleoliad y bedd.

Eitem caeëdig.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Llwybr ger Canolfan Golan - Derbyniwyd llythyr gan Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy yn datgan na fyddai'r gwelliannau wedi bod yn bosib heblaw ei bod wedi ennill grant Cynllun Gwella Hawliau Tramwy gan Lywodraeth Cymru. Roedd hefyd yn canmol y cydweithrediad gwych a gafwyd gan berchennog y tir Mr Roger Owen a'i fab Lloyd. Penderfynwyd ysgrifennu llythyr o ddiolch at Mr Owen a'i fab.

Angen torri gwair a changhennau ar y llwybr - Clerc wedi cysylltu gyda Emyr Wyn Jones i'w holi am bris, ond heb dderbyn ateb. Penderfynwyd holi Idris am bris.

Llwybr Cyhoeddus Capel Horeb - wedi cael ei dorri.

9 Adroddiad Pentrefi -

Penmorfa

Lloches bws - trafod yn y cyfarfod mis nesaf.

Garndolbenmaen

Llifogydd - problem wrth Cae Llyn. Adran Priffyrdd yn bwriadu tynnu lefel y lôn i lawr i fynd i'r gwter. Angen hefyd clirio'r ffosydd ar dir Tan y Bryn. Clerc i holi'r Adran Briffyrdd os ydynt wedi llythyru gyda pherchennog y tir.

Lamp stryd ar gyfer Oneida yn gwneud sŵn. Cynghorydd Anwen Humphreys am gysylltu gyda Chyngor Gwynedd.

Sbwriel yn cael ei adael ar ymyl y lôn o dan Tŷ Newydd.

Bryncir

Damweiniau yn digwydd yn aml wrth Bryn yr Efail.

Difrod i'r lôn rhwng Bryncir a Llecheiddior Uchaf a achoswyd gan lifogydd diweddar.

Pentrefelin

Adroddodd Delyth Evans ei fod wedi bod mewn cyfarfod i drafod y mesuriadau arafu traffig yn y pentref. Bwriedir symud y lloches bws a chafwyd ymholiad gan Gyngor Gwynedd a fyddai'r Cyngor Cymuned yn fodlon ei gynnal a chadw. Penderfynwyd peidio gwneud hyn.

Golan

Pryder am gyflwr rhannau o'r lôn.

Prenteg

Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Medi 2017 - Aberdeunant gwaith draeniad heb ei wneud.

Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd ynglŷn â'r materion pentrefi.

Angen ysgubo'r lôn yn y manau canlynol -

Garndolbenmaen - Nant Heddwch o'r pentref fyny.

Pentrefelin - Lôn Tabor i lawr i Pentrefelin (y gwteri wedi cael eu glanhau)

LônTreflys - o Bont Wern at Garthmorthin.

Prenteg - i fyny o'r pentref.


Clerc i gysylltu gyda'r Adran Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd.

10 Pont y Traeth

Derbyniwyd e-bost gan Osian Richards Cyngor Gwynedd yn nodi fod y Cyngor yn deall bod y bont dros yr afon Glaslyn wedi cael ei alw yn lleol fel Pont y Traeth, ac yn cydnabod bod gwerth a phwysigrwydd i gadw enwau lleol. Serch hyn, yr enw swyddogol mae'r awdurdod priffyrdd wedi ei ddefnyddio ers ei hadeiladwyd yw Pont Croesor. Ni fyddai'n ymarferol i'r Cyngor newid yr enw swyddogol.

Trafodwyd bod 2 bont ynghlwm wrth ei gilydd. Hefyd mae pont ym mhentref Croesor o'r un enw (Pont Croesor) ac mae hyn wedi creu dryswch i weithwyr. Cafwyd sefyllfa yn ddiweddar pan gwmpodd coeden o dan y bont lle honnodd Cyngor Gwynedd mae Rheilffordd Ffestiniog oedd yn gyfrifol am ei glirio. Ail osod arwydd Pont y Traeth. Clerc i gysylltu gyda Osian Richards.

11



caeëdig.

- 12 Gwefan - Mae'r cywiriadau wedi cael eu gwneud i'r safle we a'r dogfennau ychwanegol wedi ei llwytho. Clerc i ofyn i Faris am ddyddiad cyfleus i drefnu cyfarfod.

Penderfynwyd cydnabod y gwaith tynnu lluniau a wnaed gan Gwen Owen a Sioned Owen trwy roi rhodd ariannol iddynt.

- 13 Coed Afalau

Adroddodd y Clerc fod y coed afalau yn cael eu plannu ym Mherllan Ysgol Garndolbenmaen a Chae Chwarae Penmorfa. Bydd y Parc Cenedlaethol yn trefnu'r dyddiad ar gyfer y plannu ac yn hysbysu'r Clerc er mwyn i'r Cyngorwyr gael mynychu'r digwyddiad. Os yw'r Cyngor Cymuned yn prynu mwy o goed ar gyfer Canolfan Golan a Phrenteg, mae'r Parc Cenedlaethol yn cynnig grant o 50% o'r gost. Clerc i holi eto os oes mwy o goed afalau ar gael am ddim.

- 14 Mewnfudwyr

Trafodwyd bod angen rhoi gwybodaeth i bobl sy'n dod i fyw i'r ardal ee cyfleusterau, dosbarthiadau Cymraeg. Clerc i gysylltu gyda Hunaniaith.

- 15 Gohebiaeth

- a Cyngor Gwynedd - Llythyr gan Mr Dewi Wyn Owen Uwch Swyddog Hawliau Tramwy (gweler rhif 8).
Ychwanegwyd Llythyr Adran Priffyrdd Rhaglen Waith Trafnidiaeth Rhagfyr 2017.
- b Llythyr Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru - Clerc i gysylltu i'w hysbysu nad oes problem hefo'r llwybrau ceffylau.

Gohebiaeth ychwanegol - er gwybodaeth

- c Cylchlythyr Cais.
- ch Llywodraeth Cymru - Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer y 21ain Canrif.
- d Cynllun Diwygiedig Llywodraeth Leol 2017.
- dd Ychwanegwyd - Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor Unllais - 13/12/17.

- e Bwletin Unllais Cymru - Diddymu ffioedd claddu/amlosgi ar gyfer plant.
Clerc i e-bostio'r Bwletin at y Cynghorwyr.

16 Cynllunio

Rhestrau 6/11, 14/11, 20/11, 24/11/17.

Ceisiadau Cynllunio

C17/1079/36LL

Estyniad i Fodurdy Tyddyn Drain, Garndolbenmaen. LL51 9UJ - dim gwrthwynebiad.

C17/1077/36/LL

Cais ol weithredol i gadw mynedfa cerbyd - Tir ger Ty'n Ffrwd, Pentrefelin, Criccieth. Gwynedd LL52 ORA - gwrthwynebu ar sail diogelwch, dim angen cael mynedfa mor fawr i gael mynediad i'r tir.

C17/1094/36/LL

Newid defnydd o dŷ tafarn i dŷ preswyl. The Cross Foxes, Garndolbenmaen. LL51 9TX Gwrthwynebu er mwyn rhoi amser i unrhyw un gael ei brynu i'w gadw fel tŷ tafarn a chael cyfle i gadw adnodd gwerthfawr i'r pentref.

Gadawodd y Cynghorydd Clifford Williams, Caroll Ann Morris ac Eryl Morris y cyfarfod.

16 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian:

Neuadd Goffa Penmorfa

Cylch Meithrin Tremadog

Canolfan Golan

Neuadd Garndolbenmaen

I'w trafod ym mis Chwefror 2018.

Biliau i'w talu

Cyflog Clerc = £ 225.64

Ffôn = £ 10.00

Cyfrifiadur = £ 15.00

HMRC = £ 56.40

Ychwanegwyd

Gwasg y Bwthyn = £ 16.32

Gwen a Sioned Owen = £ 100.00

Dylan Edwards = £1250.00

Derbyniadau - Madog Memorials £26.25

Balansau Cyfrifon Banc: Cadw - £20,274.93 Cyfredol - £6,466.89

17 Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg -

- Ceisiadau Cynllunio